C1A

Honiadau o niwed a thrais domestig

(Ffurflen gwybodaeth ategol)

Ni ellir defnyddio'r ffurflen hon i wneud cais am orchymyn llys. Rhaid ei hanfon i'r llys **ynghyd â'r** ffurflen gais berthnasol.

I'w llenwi gan y llys
Y Llys Teulu yn eistedd yn:
Dyddiad cychwyn
Rhif yr achos
Gorchymyn/gorchmynion y gwnaed cais amdano/ amdanynt

Darllenwch y nodiadau ar ddiwedd y ffurflen hon cyn ei llenwi.

Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon â llaw, defnyddiwch **inc du** a PHRIF LYTHRENNAU os gwelwch yn dda.

Rydych yn llenwi'r ffurflen hon oherwydd bod honiadau y gallai'r plentyn/plant a restrir ar y ffurflen hon fod wedi dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed, trais neu gam-drin domestig.

Mae "cam-drin/trais domestig" yn golygu unrhyw ddigwyddiad lle ceir ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) rhwng oedolion sydd yn neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu, ni waeth beth fo'u rhyw neu eu rhywioldeb.

Dyma ddiffiniad Deddf Plant 1989 o'r termau canlynol:

Mae "niwed" yn golygu cam-drin rhywun neu achosi niwed i iechyd a datblygiad, gan gynnwys, er enghraifft, rhywun yn dioddef o weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin.

Mae "datblygiad" yn golygu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol, neu ymddygiadol.

Mae "iechyd" yn golygu iechyd corfforol neu feddyliol.

Mae "cam-drin" yn cynnwys camdriniaeth rywiol a mathau o gam-drin nad ydynt yn gorfforol.

Adran 1 - Amdanoch Chi (y sawl sy'n llenwi'r ffurflen hon)

Eich enw llawn

Rhywedd ☐ Gwryw ☐ Benyw

Ai chi yw'r ☐ Ceisydd ☐ Atebydd

A ydych wedi llenwi ffurflen C8 (manylion cyswllt cyfrinachol)? ☐ Do ☐ Naddo ☐ Amherthnasol

Gweler Adran 1 yn y nodiadau canllaw.

Enw'r plentyn/plant	Dyddiad geni	Rhywedd	Ei pherthynas â chi
	D D / M M / B B B B	☐ Gwryw ☐ Benyw	
	D D / M M / B B B B	☐ Gwryw ☐ Benyw	
	D D / M M / B B B B	☐ Gwryw ☐ Benyw	

© Hawlfraint y Goron 2026

A oes gennych chi gyfreithiwr yn gweithredu ar eich rhan? ☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch y manylion canlynol

Manylion eich cyfreithiwr

Enw eich cyfreithiwr	
Enw'r cwmni	
Cyfeiriad	Cod post
Rhif ffôn	
Rhif ffacs	
Rhif DX	
Cyfeiriad e-bost	
Cyfeirnod y Cyfreithiwr	

Adran 2 - Manylion am drais/cam-drin domestig

Yn yr adran hon nodwch natur y gamdriniaeth a brofoch chi neu'r plentyn/plant, a pha mor aml yr oedd yn digwydd, ac a wnaeth hyn arwain at unrhyw gysylltiad â'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau plant, eich meddyg teulu neu unrhyw asiantaeth(au) allanol arall. (Rhowch y manylion yn y tabl ar dudalen 3).

Ticiwch unrhyw rai o'r mathau canlynol o gamdriniaeth yr ydych chi neu'r plentyn/plant wedi'u profi:

	Corfforol	Emosiynol	Seicolegol	Rhywiol	Ariannol
Chi	☐	☐	☐	☐	☐
Y Plentyn/plant	☐	☐	☐	☐	☐

Ydych chi wedi cael, neu a oes gennych chi ar hyn o bryd unrhyw rai o'r gorchmynion canlynol ac a ydynt yn gyfredol?

	Dyddiad cychwyn	Hyd y gorchymyn	Cyfredol Do/Oes / Naddo/Nac oes	Enw'r llys
Gorchymyn rhag molestu				
Gorchymyn anheddu				
Gorchymyn amddiffyn priodi dan orfod				
Gorchymyn atal				
Gorchymyn gwaharddol arall				
Ymgymeriad yn lle gorchymyn				

Os oes gennych chi unrhyw gopïau o'r gorchmynion uchod, a fyddech cystal a'u hatodi i'r ffurflen hon

Rhowch ddisgrifiad byr o beth ddigwyddodd ac unrhyw wybodaeth berthnasol er mwyn i'r llys allu penderfynu beth y mae angen ei wneud. Bydd rhagor o gyfleoedd i wneud datganiad manwl

	Pryd y dechreuodd yr ymddygiad ac am faint a barhaodd? (Does dim rhaid rhoi'r union ddyddiad a nodwch a yw'r cam-drin yn parhau)	Natur yr ymddygiad/beth ddigwyddodd	Os ydych chi wedi gofyn am help, dywedwch gan bwy	A wnaethon nhw unrhyw beth? Os Do, beth wnaethon nhw?
1.				
2.				
3.				
4.				
5.				

Adran 3 - Herwgydio

Ydych chi'n credu bod perygl y bydd y plant yn cael eu herwgydio?

☐ Ydw Os Ydw, llenwch yr Adran hon

☐ Nac ydw Os Nac ydw, ewch i Adran 4

Pam rydych chi'n credu y gallai'r plentyn/plant gael ei/eu herwgydio?

A gafwyd ymgais neu fygythiad i herwgydio neu a ydy'r plentyn/plant wedi'u herwgydio yn y gorffennol?

☐ Do ☐ Naddo

Os Do, rhowch fanylion

Ble mae'r plentyn/plant nawr?

Ydy'r swyddfa basbort wedi cael ei hysbysu?

☐ Do ☐ Naddo

A oes gan y plentyn/plant fwy nag un pasbort?

☐ Oes ☐ Nac oes

Gan bwy y mae pasbort(au) y plentyn/plant?

☐ Y Fam ☐ Y Tad

☐ Arall (rhowch fanylion isod)

A oedd yr heddlu yn y wlad hon a/neu wlad arall neu unrhyw fudiad neu asiantaeth gan gynnwys ymchwilwyr preifat yn y wlad hon a/neu wlad arall yn gysylltiedig ag unrhyw ddigwyddiad blaenorol o herwgydio neu ymgais i herwgydio?

☐ Oedden ☐ Nac oedden

(Os Oedden, rhowch y manylion isod os gwelwch yn dda)

Adran 4 - Pryderon eraill am eich plentyn/plant

A oes gennych chi unrhyw bryderon eraill am ddiogelwch a lles eich plentyn/plant?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion

(Peidiwch â rhoi datganiad llawn, rhowch grynodeb o'ch pryderon. Efallai y gofynnir i chi ddarparu datganiad llawn yn ddiweddarach.)

Adran 5 - Camau neu orchmynion sy'n ofynnol i amddiffyn diogelwch a lles

Pa gamau neu orchmynion yr ydych am i'r llys eu cymryd neu eu gwneud i amddiffyn diogelwch y plentyn/plant a/neu chi eich hun?

Gorchymyn rhag molestu: Gall y llys benderfynu gwneud gorchymyn rhag molestu o dan Rhan IV Deddf Cyfraith Teulu 1996. Mae gorchymyn rhag molestu yn golygu na chaiff y sawl y mae'r gorchymyn wedi'i wneud yn ei erbyn fod yn dreisgar na bygwth trais, aflonyddu ar, plagio na chythruddo'r sawl a wnaeth y cais am y gorchymyn, trwy unrhyw fodd, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol (negeseuon testun, Facebook, ac ati).

Dyma'r gwahanol fathau o orchmynion y gellir gwneud cais amdanynt dan adran 8 Deddf Plant 1989:

Camau Gwaharddedig: mae'r gorchymyn hwn yn atal rhiant rhag cymryd cam neilltuol fel y'i nodir yn y gorchymyn heb ganiatâd y llys. Mae'n berthnasol hefyd i gamau gweithredu gan unrhyw berson arall a enwir yn y gorchymyn.

Mater penodol: mae'r gorchymyn hwn yn penderfynu ar gwestiynau penodol e.e. am addysg, triniaeth feddygol neu wyliau tramor neu ymweliad lle nad yw'r rhieni neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni yn gallu cytuno.

A ydych yn cytuno i'r plentyn/ plant dreulio amser **heb oruchwyliaeth** gyda'r unigolyn arall sy'n derbyn y ffurflen hon?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

A ydych yn cytuno i'r plentyn/ plant dreulio amser **gyda goruchwyliaeth** gyda'r unigolyn arall sy'n derbyn y ffurflen hon?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

A ydych yn cytuno i'r plentyn gael gwahanol fathau o gyswllt gyda'r unigolyn arall sy'n derbyn y ffurflen hon? (dros y ffôn, trwy neges destun, e-bost neu gyfryngau cymdeithasol)

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Adran 6 - Datganiad gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

☐ **Credaf** fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon yn wir.

☐ **Creda'r ceisydd** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

☐ **Creda'r atebydd** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod

☐ Y Ceisydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol y Ceisydd(fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

☐ Atebydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol yr atebydd (fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

Dyddiad

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni'r cynrychiolydd cyfreithiol

Os ydych yn llofnodi ar ran ffyrm neu gwmni, nodwch y safle neu'r swydd a ddelir

Adran 7 Mynd i'r llys

Nodwch a ydych yn bwriadu gofyn i'r llys wneud unrhyw drefniadau arbennig er mwyn i chi allu mynd i'r llys. Bydd y llys yn gwneud popeth posibl i fodloni'r anghenion hyn, yn amodol ar y cyfleusterau sydd ar gael. A fyddech gystal â ffonio'r llys cyn y gwrandawiad i ganfod pa drefniadau y gellir eu gwneud.

- ☐ Ystafell aros ar wahân
- ☐ Mynedfeydd ac allanfeydd ar wahân
- ☐ Sgriniau
- ☐ Cyswllt fideo
- ☐ Toiledau ar wahân
- ☐ Dod i weld y llys ymlaen llaw
- ☐ Cyfieithydd ar y Pryd
- ☐ A oes gennych chi anabledd ac y bydd angen cymorth neu gyfleusterau arbennig arnoch?
- ☐ Dehonglydd iaith arwyddion
- ☐ Arall _____

Rhestr wirio

Cyn anfon eich ffurflenni i'r llys, llenwch y rhestr atgoffa hon i gadarnhau eich bod wedi cynnwys yr eitemau canlynol:

- ☐ Os mai chi yw'r ceisydd – C100 ar gyfer trefniadau plant neu orchymyn Adran 8 arall o dan Ddeddf Plant 1989 neu os mai chi yw'r atebydd – C7 (Ymateb i gais dan Ddeddf Plant 1989).
- ☐ Os mai chi yw'r ceisydd – C1 ar gyfer gorchymyn nad yw o dan Adran 8 Deddf Plant 1989, neu os mai chi yw'r atebydd – C7 (Ymateb i gais o dan Ddeddf Plant 1989).
- ☐ C8 (Manylion cyswllt cyfrinachol)
  Nodyn: Dim ond os nad ydych am i bartïon eraill weld eich manylion cyswllt chi neu fanylion cyswllt parti arall y dylech atodi'r ffurflen hon.
- ☐ Copïau o unrhyw orchmynion sydd wedi cael eu gwneud gan y llys i'ch amddiffyn - gweler adran 2.
- ☐ Unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig arall y gallwch ei darparu yn y cam hwn i gefnogi'r honiadau yr ydych yn eu gwneud yn y tabl ar dudalen 3.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon am eich diogelwch chi a diogelwch eich plant, gallwch ffonio'r **Llinell Gymorth Trais Domestig Genedlaethol** ar **y rhif rhadffôn 0808 2000 247** neu gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.nationaldomesticviolencehelpline.org.uk**

Os dyn ydych chi a bod gennych bryderon am eich diogelwch chi a diogelwch eich plant gallwch ffonio'r **Llinell Gymorth ac Ymholiadau i Ddynion ar y rhif rhadffôn 0808 801 0327** neu
neu gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.mensadviceline.org.uk**

Dyma fudiadau eraill a all ddarparu cyngor i blant neu bobl ifanc:
Childline ar y rhif rhadffôn 0800 1111a **Llinell Gymorth Amddiffyn Plant yr NSPCC ar y rhif rhadffôn 0808 800 5000**

Ymateb i honiadau o niwed - I'w lenwi gan y sawl sydd wedi derbyn y ffurflen hon

Nid oes rhaid i chi lenwi'r adran hon oni bai eich bod yn dymuno rhoi sylwadau ar unrhyw ran o'r wybodaeth a roddwyd yn y ffurflen hon.

Rhowch sylwadau byr ar yr wybodaeth sydd wedi'i darparu yn y tabl ar dudalen 3 y ffurflen hon. Cewch gyfle i roi datganiad manylach yn nes ymlaen yn yr achos.

1.	
2.	
3.	
4.	
5.	

Unrhyw sylwadau eraill ar yr wybodaeth sydd wedi'i darparu yn y ffurflen hon

Datganiad gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

☐ **Credaf**fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon yn wir.

☐ **Creda'r ceisydd** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

☐ **Creda'r atebydd** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod

☐ Y Ceisydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol y Ceisydd(fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

☐ Atebydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol yr atebydd (fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

Dyddiad
Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni'r cynrychiolydd cyfreithiol

Os ydych yn llofnodi ar ran ffyrm neu gwmni, nodwch y safle neu'r swydd a ddelir

Nodiadau canllaw a Rhestr Wirio
Ar gyfer Ffurflen Gwybodaeth Ategol C1A

Ynghylch y canllawiau hyn:

- Maent yn esbonio rhai o'r termau a ddefnyddir yn y ffurflen hon nad ydynt, o bosib, yn gyfarwydd i chi, a byddant yn eich helpu i lenwi'r ffurflen.
- Dylech ddarllen y nodiadau hyn i gyd a'r rhestr atgoffa cyn dechrau llenwi'r ffurflen.
- Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen hon. Os bydd angen rhagor o help arnoch chi, gallech siarad â thwrnai, Canolfan Cyngor Ar Bopeth, canolfan cyngor cyfreithiol neu ganolfan gyfraith. Efallai y bydd cymorth cyfreithiol ar gael. Cewch fwy o wybodaeth yn www.gov.uk/check-legal-aid neu drwy ffonio 0345 345 4345.

Cofiwch, er y bydd staff y llys yn fodlon helpu gyda materion trefniadol, ni allant gynnig cyngor cyfreithiol.

Adran 1

Amdanoch chi
Os nad ydych chi eisiau i'r atebydd wybod eich manylion cyswllt, gadewch y blwch ar y ffurflen yn wag a llenwch y ffurflen Cyfeiriad Cyfrinachol (ffurflen **C8**). Gallwch gael copi o'r ffurflen hon o hmctsformfinder.justice.gov.uk neu unrhyw swyddfa llys teulu. Dylid ei ffeilio yn y llys ar yr un pryd ag y byddwch yn cyflwyno'r ffurflen hon. Gwnewch yn siŵr **nad yw** unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn datgelu'r manylion cyswllt cyfrinachol hynny."

Adran 2 – Rhagor o Wybodaeth

1. Digwyddiadau o drais/cam-drin domestig a'u canlyniadau

Mae'r diffiniadau o niwed a cham-drin/trais domestig i'w gweld ar dudalen un y ffurflen

Pwrpas yr adran hon yw disgrifio natur ac amlder y cam-drin yr ydych chi neu eich plentyn/plant wedi'i ddioddef ac unrhyw gamau a all fod wedi'u cymryd o ganlyniad iddo.

Mae'r rhan gyntaf yn gofyn pa fath o gam-drin yr ydych chi neu eich plentyn/plant wedi'i brofi.

Mae'r ail ran yn gofyn a oes gennych chi unrhyw rai o'r gorchmynion llys canlynol, pryd y cawsant eu gwneud, eu hyd ac ym mha lys y cawsant eu gwneud.

Gorchymyn rhag molestu – gyda'r gorchymyn hwn ni chaiff y sawl y mae'r gorchymyn wedi'i wneud yn ei erbyn fod yn dreisgar na bygwth trais, harasio, plagio na blino'r sawl a wnaeth y cais am y gorchymyn.

Gorchymyn Anheddu – mae'r gorchymyn hwn yn datgan pwy gaiff fyw mewn eiddo a gall atal person rhag mynd i mewn i'r eiddo'n gyfan gwbl neu wahardd person rhag mynd i mewn i ystafelloedd penodol yn yr eiddo.

Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod – gall y gorchymyn hwn orfodi person i ildio'i basbort, gall wahardd trais neu frawychu, gorfodi rhywun i ddatgelu lle mae person ac atal rhywun rhag cael ei gludo dramor er mwyn ei orfodi i briodi.

Gorchymyn Atal – mae'r gorchymyn hwn yn gwahardd y sawl sydd wedi'i gael yn euog rhag ymddwyn eto mewn ffordd sy'n harasio neu a fydd yn achosi i rywun fod ag ofn trais.

Gorchymyn gwaharddol arall – unrhyw waharddeb arall yr ydych efallai wedi'i chael yn erbyn y sawl yr ydych yn honni iddo achosi niwed.

Os ydych wedi cael unrhyw un o'r gorchmynion uchod, atodwch unrhyw gopïau perthnasol i'r ffurflen.

2. Gwybodaeth am ddigwyddiadau

Bwriad y tabl yw rhoi disgrifiad byr o'r hyn a ddigwyddodd a gwybodaeth berthnasol. Dyma ddisgrifiad byr o'r hyn sydd ei angen ymhob colofn:

Y dyddiad yn fras/pryd/am faint barhaodd yr ymddygiad – gellir naill ai roi dyddiadau yn fras neu ddyddiadau penodol ar gyfer digwyddiadau unigol, neu gyfnod o amser pryd y digwyddodd nifer o ddigwyddiadau.

Natur yr ymddygiad/beth ddigwyddodd – disgrifiad byr o'r digwyddiadau. Gallwch ddisgrifio'r un math o ymddygiad a ddigwyddodd dros gyfnod o amser mewn un cofnod.

Ydych chi erioed wedi gofyn am gymorth? Os ydych chi, gan bwy? - Er enghraifft yr heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, eich meddyg, gweithiwr meddygol proffesiynol, gweithiwr yn y sector gwirfoddol, Canolfan Cyngor Ar Bopeth neu unrhyw asiantaeth yr ydych wedi cysylltu â hi i gael help. Gallai hefyd fod yn ffrind neu aelod o'r teulu.

A wnaethon nhw unrhyw beth? - Pa help wnaethon nhw ei roi? Gawsoch chi eich cyfeirio at rywun arall? A oes unrhyw gysylltiad yn dal i fodoli â nhw?

Adran 3 – Herwgydio

Mae'r adran hon yn gofyn am unrhyw bryderon a all fod gennych am blentyn yn cael ei herwgydio o'ch gofal.

Ystyr "herwgydio plentyn" yw symud plentyn yn anghyfreithlon o feddiant unrhyw berson sydd â rheolaeth gyfreithiol dros y plentyn hwnnw neu sydd â'r hawl i fod â rheolaeth gyfreithiol dros y plentyn hwnnw.

Ystyr "herwgydio plentyn ar y llwyfan rhyngwladol" yw symud plentyn yn anghyfreithlon o'r wlad y mae'r plentyn yn byw ynddi fel arfer neu eu cadw'n anghyfreithlon mewn gwlad lle nad ydynt yn byw ynddi fel arfer.

Os oes gan y plentyn basbort mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r adran lle gofynnir i chi ddweud gan bwy y mae pasbort y plentyn.

Adran 4

A oes unrhyw bryderon eraill yr hoffech eu codi ynghylch eich plentyn/plant?

Mae'r adran hon ar gyfer unrhyw bryderon nad ydynt wedi'u codi hyd yma yn y ffurflen sy'n ymwneud â diogelwch a lles y plentyn.

Adran 5

Mynychu'r Llys

Mae'r adran hon yn gofyn a ydych angen i'r llys roi unrhyw fesurau arbennig ar waith pan fyddwch yn mynychu'r llys. Bydd y llys yn ceisio rhoi man aros ar wahân i chi a'ch tystion a'r mesurau eraill a restrir. Ond, nid oes modd darparu'r mesurau bob amser gan y bydd yn dibynnu ar y cyfleusterau sydd ar gael yn y llys.

Ymateb i honiadau o niwed (tudalen 10)

Dylid ond llenwi'r adran hon os yw'r parti arall (y ceisydd) wedi cyflwyno ffurflen C1A wedi'i llenwi ac wedi'i hanfon at yr atebydd.

Os nad oes ffurflen C1A yn cael ei chyflwyno gyda'r cais am orchymyn bydd angen i'r atebydd lenwi'r ffurflen C1A ei hun i'w dychwelyd gyda'r ffurflen C7 Ymateb i gais dan Ddeddf Plant 1989.